


# Crynodeb Cwricwlwm i Gymru Ysgol Bro Preseli

Mae gweledigaeth a chwricwlwm Ysgol Bro Preseli wedi ei lunio ar sail barn a sylwadau holl raddeiliaid teulu'r ysgol, gan gynnwys, y disgyblion, y staff, y rhieni/warcheidwaid, y Llywodraethwyr ac wrth gwrs y gymuned leol mae'r ysgol yn ei wasanaethu. Mi fydd y weledigaeth a'r ddarpariaeth yn cael ei werthuso a'i adolygu yn flynyddol ar y cyd gyda'r rhanddeiliaid a nodwyd uchod.

**Ein gweledigaeth**

Nod yr ysgol yw cynnig yr un cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd eithaf ei allu, fel unigolyn ac fel aelod o gymdeithas, ac i wneud hynny mewn cymuned Gymreig gartrefol a chefnogol sydd â'i bryd ar fagu gwreiddiau ac ehangu gorwelion. Mae ein arwyddair 'Gwreiddiau a Gorwelion' yn crisialu ein nod o baratoi ein disgyblion yn academaidd ac yn bersonol o'r eiliad y maent yn plannu eu gwreiddiau i'r foment y maent yn paratoi at fywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Yn tanategu ein gweledigaeth mae ein gwerthoedd:



## Ethos Cymreig

I ddathlu ein hethos Cymreig ac i ymfalchïo yn ein amlieithrwydd.

Gan fod yr ysgol yn ysgol ddwyieithog swyddogol disgwylir i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion fod yn frwd dros addysg cyfrwng Cymraeg. Disgwylir i ddisgyblion ddangos parch a balchder yn yr iaith Gymraeg trwy ei defnyddio'n gyson y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ymdrechwn i ennyn balchder yn y disgyblion tuag at iaith, diwylliant, hanes ac etifeddiaeth Cymru.



## Caredigrwydd

Hyrwyddo ethos cadarnhaol ac awyrgylch cyfeillgar trwy ddatblygu'r gallu i ymddiried yn ein gilydd.

Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth yn yr ysgol a adlewyrchir yn edrychiad ac ymddygiad y disgyblion. Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnal disgyblaeth yw trwy feithrin hunanddisgyblaeth ac agwedd gyfrifol ymhlith y disgyblion.



## Cyfrifoldeb

Cymryd cyfrifoldeb am ein lles corfforol, emosiynol ac ysbrydol, addysg a diwylliant.

Gwnawn ein gorau i feithrin parch yn y disgyblion at bobl ac eiddo fel ein bod yn byw mewn cymdeithas wâr a goddefgar. Ceisiwn hefyd feithrin rhinweddau personol yn y disgyblion, rhinweddau megis cwrteisi, gonestrwydd, dyfalbarhad a chydwybodolrwydd ymhlith eraill. Pwysleisir pwysigrwydd darparu cyfleoedd cyfartal i bob plentyn waeth beth fo'i allu, rhyw, oedran neu gefndir ieithyddol.



## Cymuned

Mae awyrgylch deuluol yn yr ysgol gyda chydweithio agos rhwng y staff, (athrawon, staff gweinyddol, staff y gegin) disgyblion a rhieni. Mae Cymdeithas Rhieni ragorol yn bodoli ac mae cefnogaeth dda iawn i unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn ysgol gymunedol. Mae'r gymuned yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol yn helaeth gyda'r nos ac mewn modd cilyddol mae'r ysgol yn defnyddio'r gymuned fel adnodd i gyfoethogi addysg y disgyblion.



# Datganiad o fwriad

Yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru mae ein gweledigaeth wedi ei selio ar y pedwar diben, y rhain yw'r man cychwyn i 'wreiddiau' ein disgyblion ac yn uchelgais hir dymor ar gyfer 'gorwelion' holl deulu Ysgol Bro Preseli. Mae'r pedwar diben hwn yn chwarae rhan ganolog ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

| **Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn:** | | | |
|---|---|---|---|
| **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** | **unigolion iach, hyderus sydd:** | **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:** | **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:** |
| 1. gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau<br>2. datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br>3. ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau<br>4. gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg<br>5. gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdanyn nhw<br>6. gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau<br>7. deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol<br>8. defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi<br>9. ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol | 1. â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol<br>2. yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder cadernid ac empathi<br>3. yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corf ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd<br>4. yn gwybod sut i ddod o hyd I'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel a iach<br>5. yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol<br>6. yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg<br>7. â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau<br>8. yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd<br>9. yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn<br>10. â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw | 1. cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrch<br>2. meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau<br>3. adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnyn nhw<br>4. mentro'n bwyllog<br>5. arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol<br>6. mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau<br>7. rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa | 1. canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn<br>2. trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br>3. deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd<br>4. deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu<br>5. wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol<br>6. parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol<br>7. yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned |
| **…ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.** | **…ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau werthfawr o gymdeithas.** | **…ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith** | **…ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.** |

**Ein cwricwlwm cynhwysol**

Mae **cynhwysiant** yn un o werthoedd craidd ein hysgol. Rydym yn benderfynol o sicrhau cwricwlwm cynhwysol sydd yn hygyrch i bob disgybl ac yn ymateb i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Bydd ein holl staff yn ymrwymo i sicrhau strwythur cwricwlwm arloesol i ddiwallu anghenion disgyblion ar hyd y continwwm dysgu. Bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r gwerth yma drwy mynnu disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr ac yna darparu'r gefnogaeth priodol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn llwyddo i wneud cynnydd ac i wireddu'r pedwar diben. Rydyn yn parchu ein dysgwyr fel uniogolion, rydyn fel ysgol yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth gynllunio er mwyn sicrhau cydbwysedd a phriodeldeb ein cwricwlwm ar gyfer ein HOLL ddysgwyr.

**Ein cwricwlwm ar waith**

Mae cyfrifoldeb cyfunol arnom i ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb ein disgyblion wrth wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Bydd y cwricwlwm cynlluniedig cynhwysol, eang, cytbwys a heriol newydd yn cael ei ddatblygu gan sicrhau lle canolog i lais y plentyn. Mi fydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu anghenion ein disgyblion a'r gymuned ehangach gan sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr ddeall diwylliant, treftadaeth, economi ac hanes eu cynefin.

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu trwy'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

* Y Celfyddydau Mynegiannol
* Iechyd a Lles
* Y Dyniaethau
* Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
* Mathemateg a Rhifedd
* Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mi fydd y datganiadau or hyn sy'n bwysig o fewn y chwe maes dysgu a phrofiad yn llywio cynnwys manylach ein cwricwlwm.

**Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau cyffrous a pherthnasol i ddatblygu'r cysyniadau allweddol, yr wybodaeth a'r sgiliau fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â Chod y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

**Dysgu, Cynnydd ac Asesu**

- Mae addysgu o'r radd flaenaf ac addysgu da wrth wraidd llwyddiant ein cwricwlwm ac ethos ein ymarferwyr proffesiynol. Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy gynllunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol:
    - yn cynnal ffocws cyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
    - yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
    - yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
    - yn annog cydweithio
    - yn herio pob un o'r disgyblion trwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrech gynaledig wrth fodloni disgwyliadau sy'n uchel ond y mae modd iddynt eu cyflawni
    - yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys y rheiny sy'n hyrwyddo datrys problemau, meddwl creadigol a beirniadol
    - yn gosod tasgau ac yn dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
    - yn creu cyd-destunau go iawn ar gyfer dysgu
    - yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
    - yn atgyfnerthu cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn rheolaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion eu hymarfer

- Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn Maes neu ddisgyblaeth benodol, a'r modd y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r modd yr ydym yn mynd ati i asesu, a'i ddiben yw llywio gwaith cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

**Trefniadau asesu a sicrhau cynnydd pob disgybl**

Bydd ein trefniadau asesu yn gwreiddio fel rhan annatod o'r ymarfer dydd i ddydd sy'n addas i bob dysgwr. Fel rhan o'r Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y CiG) 2022, byddwn yn sicrhau ein bod yn:

- Sicrhau bod asesu yn cael ei wreiddio fel rhan annatod o ddysgu ac addysgu.
- **Bydd pob dysgwr** yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol.
- Gwneud trefniadau ar gyfer asesiad parhaus o bob disgybl a phlentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd;
- Gwneud trefniadau ar gyfer asesiadau wrth dderbyn disgyblion, a chynnal yr asesiadau hynny i bob plentyn/disgybl ar adegau penodol;
- Gweithio o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chynllunio ar gyfer pontio dysgwyr rhwng ysgolion;
- Darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr fel eu bod yn deall cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.
- Gweler yn trefniadau asesu a pholisi adborth.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

- Bydd ein cwricwlwm yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i wneud y canlynol:
- datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
- bod yn hyderus yn eu defnydd o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn/Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**

- Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rheiny sy'n darparu'r addysgu a'r dysgu.

**Addysg Gyrfaeodd a Phrofiadau sy'n gysylltedig â byd gwaith**

- Mi fydd ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth ein dysgwyr o fyd-gwaith.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

- Mae cwricwlwm ein hysgol yn coleddu'r arweiniad a geir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr, a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben trwy ddull ysgol gyfan. Helpu dysgwyr i feithrin a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, yw sylfaen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad llesiant emosiynol, cadernid ac empathi. Mae hwn yn agwedd mandadol o'r cwricwlwm.

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

- Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad mandadol yn Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.
- **Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn** yn ôl o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Cwricwlwm i Gymru.
- Gan fod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur y cytunwyd arno yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr awdurdod lleol, a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.


**Adolygu a mireinio**

- Bydd cwricwlwm ein hysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion newidiol y dysgwyr, a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

**Pontio a Chydweithio Clwstwr**

- Mi fydd Ysgol Bro Preseli yn cyd-weithio ag ysgolion y clwstwr er mwyn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb i ddysgwyr yn unol á'r cynllluniau gweithredu clwstwr.

Mi fydd Cwricwlwm Ysgol Bro Preseli yn esblygu ac yn cael ei fireinio yn unol á gofynion ein disgyblion ac ar sail gwaith gwerthuso parhaus er mwyn sicrhau darpariaeth addysg cyffrous, cyfredol, perthnasol ac arloesol ar gyfer ein dysgwyr. Mi fydd y cwricwlwm yn cael ei fabwysiadu yn swyddogol i ddisgyblion hyd at flwyddyn 7.

Pennaeth: 

Cadeirydd y Llywodraethwyr: 